# Bioamrywiaeth

| Amser ar gyfer y sesiwn: | Lleoliad: | Cyd-destun: |
|---|---|---|
| Gweithgaredd 1: 60-90 munud<br><br>Gweithgaredd chwarae: 30 munud | Ystafell ddosbarth a thir yr ysgol | Mae'r cynllun gweithgareddau hon yn cynnwys gweithgaredd 60-90 munud a weithgaredd chwarae 30 munud i wneud ar ôl cyflwyniad y bore i ddysgu mwy am fioamrywiaeth. |

## NODIADAU'R GWEITHGAREDDAU

**Amcan**

- Gweithiwch mewn timau i ail ddylunio tir yr ysgol i fod yn fwy cyfeillgar i natur, gan ddefnyddio creadigrwydd, cydweithio a sgiliau datrys problemau.
- I ymgysylltu myfyrwyr mewn gweithgareddau hwyliog a egnïol sy'n gofyn iddynt feddwl yn gyflym am ystod amrywiol o bethau byw, gan gynyddu eu hymwybyddiaeth o amrywiaeth bywyd ar y ddaear.

**Amcanion Dysgu:**

Erbyn diwedd y sesiwn, bydd disgyblion yn gallu:

- Wedi cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fioamrywiaeth.
- Deall pwysigrwydd bioamrywiaeth a sut y gall tiroedd ysgolion gefnogi bywyd gwyllt a bioamrywiaeth yn lleol.
- Nodi nodweddion all helpu natur i ffynnu (e.e. coed, pyllau, ardaloedd o flodau gwyllt).
- Gwneud penderfyniadau ac ymateb yn greadigol trwy ddylunio gofod sy'n gyfeillgar i natur gan ddefnyddio mapiau, modelau neu luniau.
- Cydweithio'n effeithiol mewn timau i rannu syniadau, trafod dewisiadau a datrys heriau amgylcheddol.
- Cyflwyno ac egluro eu syniadau gan ddefnyddio geirfa briodol.

## GWEITHGAREDD ADEILADWYR NATUR!

**Amlinelliad o'r Gweithgaredd**

- Grŵp oedran: 5-8 oed
- Hyd: 60–90 munud
- Lleoliad: Ystafell ddosbarth a thir yr ysgol

1. Rhagarweiniad:
    - Briff byr: "Beth y mae natur ei angen i ffynnu?"
    - Dangoswch enghreifftiau o nodweddion allai fod yn gyfeillgar i fywyd gwyllt (wedi'i gynnwys ar ddiwedd y ddogfen)
2. Archwilio'r tiroedd:
    - Cerddwch o amgylch tir yr ysgol i edrych ar y nodweddion natur presennol.
    - Nawr, meddyliwch beth sydd ar goll.
    - Anogwch y disgyblion i gymryd nodiadau a thynnu lluniau o'r nodweddion presennol a'r rhai ychwanegol posibl.
3. Dyluniadau presennol:
    - Yn ôl yn yr ystafell ddosbarth, darparwch fap mawr o dir yr ysgol.
    - Pob tîm i gyflwyno eu dyluniad o ysgol sy'n gyfeillgar i natur ac ychwanegu eu syniadau at y map.
    - Anogaeth i ddefnyddio termau pwysig: cynefin, bioamrywiaeth, peillwyr ac ati.
4. Myfyrio:
    - Beth wnaethant ei ddysgu a sut y gallant gymryd hyn i wella natur gartref a/neu yn eu cymuned.

**Addasiadau i'r gweithgaredd**

I Wneud y Gweithgaredd yn Haws:

- Tynnwch luniau ar y map yn barod i ddangos lle gellir gosod nodweddion natur.
- Defnyddiwch gardiau llun o nodweddion posibl gyda lluniau ac enwau (e.e. "Coeden", "Gwesty Pryfed").
- Cynigiwch lai o nodweddion natur i ddewis ohonynt (e.e. coed, blodau a gwestai pryfed yn unig).
- Defnyddiwch Heriau dan Arweiniad – e.e. darparwch gardiau atgoffa ar gyfer yr her e.e. mae pryfed angen rhywle i fyw, beth ddylech ei ddarparu o'r rhestr.
- Darllenwch gardiau her ar lafar a thrafodwch ddatrysiadau fel grŵp cyn i dimau weithredu.

I Wneud y Gweithgaredd yn Anoddach:

- Ychwanegwch gyllideb: Rhowch "gyllideb" i bob tîm a neilltuwch gostau i nodweddion natur. Mae'n rhaid iddynt gynllunio'n ddoeth!

- Cynnwys data go iawn. Defnyddiwch adnodd mapio ward Natur Sir y Fflint (https://fccnature.maps.arcgis.com/apps/dashboards/bf3317b7056d4479b38f232c6602fe91) i wneud penderfyniadau yn seiliedig ar ddata go iawn.
- Y Cynllun Hirdymor. Cynhwyswch newidiadau tymhorol, gofynion cynnal a chadw a/neu effeithiau hirdymor (e.e. “Sut y bydd hyn yn edrych mewn 5 mlynedd?”).
- Myfyrio’n ysgrifenedig. Gofynnwch i’r disgyblion ysgrifennu adroddiad byr neu lythyr darbwyllol yn egluro eu dewisiadau dylunio.

## GWEITHGAREDD BIOAMRYWIAETH ‘GWENYN SWNLLYD’

**Amlinelliad o’r Gweithgaredd**

- Grŵp oedran: 5-8 oed
- Hyd: 60–90 munud
- Lleoliad: Neuadd neu thir yr ysgol

1. Dechreuwch y gweithgaredd drwy gael y dosbarth i redeg o gwmpas mewn man agored (cae, neuadd ac ati), gan suo o gwmpas fel gwenyn.
2. Bydd yr athro, neu berson ymroddedig arall, yn gweiddi unrhyw lythyren o'r wyddor.
3. Yna mae gan y disgyblion 10 eiliad i 'ddod' ac ymddwyn fel unrhyw beth byw (planhigyn, anifail, madarch) gan ddechrau gyda'r llythyren a ddewiswyd.
4. Bydd yr athro yn gofyn i bob disgybl beth ydyn nhw. Os bydd unrhyw un yn dewis yr un peth â rhywun arall, maen nhw allan. Os na wnaethon nhw ddewis dim byd, maen nhw allan hefyd. Mae'r gêm yn rhedeg tan yr 'un olaf sy'n weddill'.

## I GRYNHOI

Beth fydd y disgyblion wedi ei ddysgu:

- Beth yw bioamrywiaeth, pam ei fod yn bwysig a sut y gall ein helpu.
- Y cysylltiad rhwng bioamrywiaeth a’r hinsawdd.
- Deall bygythiadau i fioamrywiaeth a sut y gall tiroedd ysgolion gefnogi bywyd gwyllt a bioamrywiaeth yn lleol.
- Gallwn wneud gwahaniaeth trwy wneud gofodau yn fwy cyfeillgar i natur.
- Gallwn i gyd rannu beth yr ydym yn ei wybod gyda phobl eraill i ledaenu’r neges.

Enghreifftiau o nodweddion sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt

Pwll fywyd gwyllt:



Tyfu bwyd sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt:



Bocs cynefin:



Plannu coed:



Plannu gwrych:



Blodau gwyllt:



Plannu bylbiau brodorol:







